

Targedau	Sut rwyf wedi gweithio ar hwn
Gwirio'r templed aseiniad er mwyn cynnwys y tabl targedau a defnyddio ffont (Ariel 11, 1.5 bwlch llinell 'line spacing').	Rwyf wedi edrych ar y templed ac wedi sicrhau bod y font yn Ariel 11 efo bwlch llinell 1.5
Darllen mwy o lyfrau ac erthyglau academiaidd er mwyn gwella ansawdd y ffynonellau ac i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ehangach o'r meysydd dan sylw.	Rwyf wedi darllen fwy o lyfrau ar gyfer yr aseiniad yma er mwyn datblygu gwybodaeth
Mireinio dy sgiliau cyfeirnod	Rwyf wedi darllen canllawiau cyfeirnod y brif ysgol

Dylunio a chynnal astudiaeth ymchwil ar raddfa fach, a gwerthuso'n feirniadol effaith offer ymchwil a ddewiswyd, a'r data, ar y dysgwr ac ar eich ymarfer proffesiynol.

Beth yw barn staff a disgyblion Blwyddyn 5 am ddefnyddio meini prawf llwyddiant?'

Cyflwyniad

Pwrpas yr aseiniad yma yw i ddylunio a chynnal astudiaeth ymchwil, ac i werthuso'r offer ymchwil mewn dyfnder ac yn dadansoddi'r data yn drylwyr. Ar gyfer fy ymchwil dewiswyd y cwestiwn 'Beth yw barn staff a disgyblion Blwyddyn 5 am ddefnyddio meini prawf llwyddiant?' ac wrth i mi wneud ymchwil byddaf yn ystyried sut bydd y canfyddiadau yn effeithio ar fy nghysgu proffesiynol. Rhan bwysig o'r cwricwlwm i Gymru yw Asesu ar gyfer Dysgu (AagD) a gan fod yna pedwar elfen i AagD, penderfynir canolbwyntio ar yr elfen meini prawf llwyddiant ar gyfer fy ymchwil. Yn ôl Assessment Reform Group, AagD yw'r 'broses o geisio a dehongli tystiolaeth y gall dysgwyr a'u hymarferwyr ei defnyddio er mwyn penderfynu ble mae'r dysgwyr arni yn eu dysgu, ble mae angen iddynt fynd a'r ffordd orau o gyrraedd yno' (Llywodraeth Cymru,2013). Diffiniodd Wiliam a Black AagD yn wreiddiol fel: "gan gwmpasu'r holl weithgareddau hynny a wneir gan athrawon, a/neu eu myfyrwyr, sy'n darparu gwybodaeth i'w defnyddio fel adborth i addasu'r gweithgareddau addysgu a dysgu y maent yn ymgysylltu â hwy" (Black & Wiliam 1998). Ar gyfer fy ymchwil bwriadir defnyddio cyfweiliadau byr efo'r staff yn ogystal â dosbarthu holiaduron efo'r disgyblion, ac wrth wneud hyn byddaf yn defnyddio'r agwedd mosaic (Clarke,2005). Rwy'n rhagdybio y bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr a staff Blwyddyn 5 yn cael barn gadarnhaol am ddefnyddio meini prawf llwyddiant a'u bod yn ei ddefnyddio yn y mwyafrif o wersi ac hefyd bod canlyniadau cadarnhaol pan gaiff ei ddefnyddio yn y gwersi. Rwyf hefyd yn rhagdybio bydd ddefnyddio meini prawf yn fwy cadarnhaol ac yn effeithiol yn rhai gwersi nag eraill.

Adolygiad Llenyddiaeth

Mae Asesu ar gyfer Dysgu yn digwydd ar bob cam o'r broses dysgu. Mae myfyrwyr yn cael i annog i gymryd rhan weithredol, i ddod yn ddysgwyr hunan reoledig ac i adael yr ysgol yn abl ac yn hyderus i barhau i ddysgu drwy gydol eu hoes. Dywed Harrison (2013) bod AagD yn annog cyfranogiad gweithredol gan y myfyrwyr i gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb am eu dysgu ac i ddyfnhau eu dealltwriaeth o sut gallent symud ymlaen ar eu taith dysgu trwy gylch o adborth gan athrawon a myfyrwyr a deialog bersonol gyson i wella cyflawniad. AagD yw'r broses o gasglu a dehongli tystiolaeth i'w defnyddio gan athrawon a dysgwyr i benderfynu ble maen nhw yn eu dysgu, ble mae angen iddyn nhw fynd, a'r ffordd orau i gyrraedd yno (Assessment Reform Group 2022). Mae AagD yn hanfodol er mwyn i athrawon ystyried dulliau i wneud darpariaeth yn effeithiol i bob dysgwyr. Yn ôl Jones (2005, tud 4) mae AagD yn ddull dylanwadol o wella cyrhaeddiad disgyblion, y cynsail sylfaenol yw bydd dysgu'r disgyblion yn datblygu os ydynt yn cydnabod ac yn deall amcan eu dysgu, deall ble maent mewn perthynas â'r amcan a sut y gallent gyflawni'r amcan. Yn ôl Cambridge Assessment International Education (2019), AagD yw'r dull o addysgu a dysgu sy'n creu adborth sydd yna yn cael ei ddefnyddio i wella perfformiad disgyblion. Dros y blynyddoedd diwethaf mae AagD wedi dod yn fwy pwysig yn enwedig efo Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2020). Nodir Llywodraeth Cymru (2021) "Asesu yw'r allwedd i gefnogi dysgu 'dwfn', a dylai gael ei ddefnyddio i nodi a oes angen i ddysgwyr atgyfnerthu eu dysgu, a oes angen cymorth pellach a beth yw'r camau nesaf ar gyfer cynnydd dysgwyr." Pan mae'n dod i AagD y myfyrwyr sydd yn cymryd y fwyaf o ran yn y broses dysgu ac mae hyn yn magu hyder yn yr hyn y disgwylir iddynt ei ddysgu ac i ba safon. Dywed Wiliam (2018) bod AagD yn ymwneud â gwneud y gorau o'r broses adborth er mwyn optimeiddio dysgu myfyrwyr. Efo'r adborth mae'n amrywio o'r ffurfiol sydd yn ysgrifenedig ar ddiwedd y gwaith, i'r anffurfiol er enghraifft y sylwadau sy'n cael i roi yn syth ar lafar wrth wneud y gwaith. Efo AagD mae yna pedwar elfen ac yn ôl Wiliam (2011 tud 137) y pedwar elfen yw hunan asesu ac asesu cyfoedion, defnydd ac ansawdd adborth, cwestiynu ac rhannu meini prawf llwyddiant.

Pan mae'n dod i AagD mae rhannu meini prawf llwyddiant yn rhan bwysig. Yn ôl Hattie pwysigrwydd rhannu meini prawf llwyddiant yw rhagosodiad sylfaenol bod gan y myfyrwyr yr un syniad a'u hathro, a'r hyn dylent fod yn ei ddysgu o ganlyniad i'w wneud (dyfynnwyd yn STEM Learning, 2010-2019). Dywed Black (2003) bod rhannu meini prawf llwyddiant wedi ffurfio'r fframwaith a helpodd dysgwyr i benderfynu sut y gallent wneud ei gwaith a gwneud gwelliannau i'w gwaith, a'r camau y bu'n rhaid iddyn nhw eu cymryd i wella'r tro nesaf. Dangosir hyn pa mor bwysig yw rhannu meini prawf llwyddiant er mwyn sicrhau bod y myfyrwyr yn deall yn union beth sydd angen gwneud er mwyn llwyddo ar

camau ymlaen i wella y tro nesaf. Wrth sôn am meini prawf llwyddiant dadleua Pollard (2014) yn erbyn defnyddio nhw. Rhybuddir Pollard (2014) rhag rhannu meini prawf llwyddiant er eu mwyn a dywed fod rhaid i'r disgyblion gymryd rhan yn y broses er mwyn iddo fod yn effeithiol wrth AagD, a pheidio â chael gwaith ysgrifennu mecanistaidd wrth rhannu meini prawf llwyddiant. Yn wahanol i Pollard (2014) wrth sôn am feini prawf llwyddiant mae Shirley Clarke yn fwy positif a dywed 'mae meini prawf llwyddiant yn crynhoi'r camau neu'r cynhwysion allweddol sydd angen ar y myfyrwyr er mwyn iddyn nhw gyflawni'r bwriad dysgu – y prif beth i'w gwneud, cynnwys neu ganolbwyntio arno' (Nortnen Ireland Curriculum, 2017, tud 15). Awgrymir hwn bod wrth ddefnyddio meini prawf llwyddiant mae'n o fudd i'r athrawon a'r myfyrwyr gan ei fod yn helpu'r myfyrwyr cad ffocws clir ar beth sydd angen er mwyn bod yn llwyddiannus ac mae'n caniatáu adborth effeithiol o'r athrawon ac yn dangos yn glir i'r myfyrwyr beth sydd angen er mwyn llwyddo a gwella tro nesaf. Dyluniwyd meini prawf llwyddiant i "arwyddo'r dysgwyr am gyrchfan a darparu map ar gyfer sut y byddant yn cyrraedd yno" (Frey, Hattie, Fisher, 2018, tud 41). Cytuna'r dyfyniad hon efo Shirley Clarke ac mae'n dangos pa mor bwysig yw meini prawf ar gyfer llwyddo wrth wneud gwaith o'r cychwyn tan y diwedd er mwyn llwyddo ac hefyd efo'r camau ymlaen er mwyn gwella tro nesaf. Noda Estyn (2022,tud 22) bod athrawon yn gwahaniaethu meini prawf llwyddiant i cefnogi pob disgybl i gyrraedd y bwriad dysgu ar y cyd. Mae hyn yn helpu i ddarparu cefnogaeth briodol i ddisgyblion ac i herio'r mwyaf abl. Mewn ambell i achos, mae disgyblion yn datblygu sgiliau dysgu annibynnol cryf ac yn gallu ddewis o ystod gwahaniaethol o meini prawf llwyddiant ar lefel briodol heriol.

Methodoleg

Nod yr ymchwil hon yw i archwilio barn disgyblion a staff blwyddyn 5 am rannu meini prawf llwyddiant er mwyn er mwyn ateb y cwestiwn ymchwil 'Beth yw barn staff a disgyblion blwyddyn 5 am ddefnyddio meini prawf llwyddiant'. Er mwyn darganfod barn staff a disgyblion blwyddyn 5 bwriedir defnyddio holiadur a chyfweliad ar gyfer fy offer ymchwil ac mi fydd yr offer ymchwil yn cadw at yr Agwedd Mosiac sef ymagwedd aml-ddull sy'n dadansoddi'r pwysigrwydd o wrando a chydabod llais y plentyn (Clark,2011,tud 1). Ar gyfer yr ymchwil y sampl oedd dosbarth blwyddyn 5 sef disgyblion 9 a 10 mlwydd oed ar athro dosbarth yn ysgol gynradd Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin, ac o fewn y sampl roedd yna dau ddeg o ddisgyblion ac un aelod o staff. Penderfynaf ddefnyddio cyfweliad a holiadur fel yr offer ymchwil gan eu bod yn darparu data meintiol ac ansoddol sy'n caniatáu i'r ymchwilydd gael trosolwg mwy cyfannol o'u hastudiaeth (Punch,2014,tud 119).

Ar gyfer yr ymchwil penderfynaf ddefnyddio holiadur er mwyn darganfod barn disgyblion blwyddyn 5 am ddefnyddio meini prawf llwyddiant. Holiadur, yn ôl Creswell (2012,tud 382) yw "ffurf a ddefnyddir mewn arolwg dylunio bod cyfranogwyr mewn astudiaeth yn cyflawni ac yn dychwelyd i'r ymchwilydd". Byddaf yn dosbarthu holiadur ar-lein i ddysgwyr Blwyddyn 5 gan ddefnyddio Microsoft Forms. Efo'r holiadur mi fydd y cwestiynau wedi eu geirio mewn iaith syml a dealladwy i'r dysgwyr a byddaf yn egluro wrth y dysgwyr beth yw pwrpas yr ymchwil ac yn pwysleisio does dim rhaid iddynt gwblhau'r holiadur ag y gallent adael yr holiadur/ cwestiwn yn wag os dymunent. Byddaf hefyd yn pwysleisio nad oes ateb cywir nac anghywir oherwydd fy mod eisiau darganfod ei barn personol. Mantais o ddefnyddio'r holiadur fel offer ymchwil yw bod yna anhysbysrwydd. Wrth i'r holiadur fod yn anhysbys mae'n gwneud i'r ymatebwyr teimlo'n fwy cartrefol yn syth ac yn eu hannog i ateb yn onest, sydd yn dda pan fyddwch chi'n ceisio cael darlun mwy gonest a chywir o'ch pwnc ymchwil (Cleave,2023). Yr ail fantais o ddefnyddio'r dull holiadur yw bod potensial i'r holiadur cyrraedd cynulleidfa fawr yn gyflym ar-lein a gallwch dderbyn adborth nol yn gyflym gan yr ymatebwyr. Mantais arall o ddefnyddio holiaduron fel offer ymchwil yw bod yr holl gyfranogwyr yn derbyn union yr un cwestiynau (Denscome,2014, tud 181). Gan fod yr union yr un cwestiynau gan bawb ar ffordd bod yr holiadur yn cael i gwblhau nid oes llawer o le i'r data gael i effeithio gan ffactorau rhyngpersonol neu'r modd y gofynnir y cwestiynau. Fodd bynnag, mae rhai anfanteision yn gysylltiedig â defnyddio holiadur fel offer ymchwil. Un anfantais yw cwestiynau heb eu hateb, oherwydd efo holiaduron pan fydd ymatebwyr yn cael eu gadel i ateb cwestiynu yn unigol gall arwain at rai unigolion yn gadel allan y cwestiynau nad ydynt yn ffansio ateb sy'n gallu niweidio dilysrwydd eich canlyniadau (Cleave,2023). Ond gall hyn gael i osgoi oherwydd yn ffodus mae gan holiaduron ar-lein reolau adeiledig sy'n sicrhau na all ymatebwyr symud ymlaen i'r cwestiwn nesaf nes eu bod wedi ateb y cwestiwn cyn.

Er mwyn darganfod barn staff blwyddyn 5 am ddefnyddio meini prawf llwyddiant bwriadir cynnal cyfweiliad lled strwythuredig efo staff y dosbarth a bwriadir recordio'r cyfweiliad. Diffiniwyd Cohen a Manion (2000) cyfweiliadau fel cyfnewid geiriol, fel arfer yn digwydd gan ddau unigolyn, wedi'i harwain gan y cyfwelydd a'i phrif amcan yw cael y wybodaeth briodol sy'n angenrheidiol ar gyfer yr ymchwil. Cyn cynnal y cyfweiliad efo'r athro dosbarth byddaf yn egluro'n glir beth yw pwrpas yr ymchwil a bod ganddynt yr hawl i adael y cyfweiliad ar unrhyw adeg heb roi rheswm (BERA,2018,tud 9). Mantais y dull hwn yw bod cyfweiliadau yn manteisio ar y ffaith y gall cyfranogwyr dweud pethau wrthyhych amdanynt eu hunain (Robson,1993,tud 227). Mae cyfweiliadau yn ddull amlbwrpas o gynhyrchu data a gall yr ymchwilwyr defnyddio i fynd i'r afael ag ystod eang o nodau a dibenion. Wrth gynnal cyfweiliad mae rhyngweithio personol yn digwydd rheng yr ymchwilydd ar gyfranogwyr sy'n

hwyluso datblygiad y berthynas rhwng y ddau. Yn ôl King a Horrocks (2010, tud 48) 'Mae'r datblygiad o berthynas yn cael ei weld yn eang fel cynhwysyn allweddol mewn cyfweiliad ansoddol llwyddiannus'. Mantaïs arall yw creu perthynas rhwng yr ymchwilydd ar gyfranogwyr gan fod y rhyngweithio sy'n digwydd yn ystod y broses cyfweld yn rhoi'r data yn ogystal ag unrhyw wybodaeth ychwanegol berthnasol. Er bod manteision i ddefnyddio cyfweiliadau fel offer ymchwil, mae yna rhai anfanteision yn gysylltiedig i'r dull. Un anfantaïs yw'r goresgyniad preifatrwydd y cyfranogwyr (Denscome, 2014, tud 203). Gall cyfweiliad fod yn ymosodiad ar breifatrwydd a/neu'n peri gofid i'r cyfranogwyr, felly er bod cyfweiliadau'n gallu bod yn bleserus mae'r elfen bersonol o gael ei chyfweld yn cario rhai peryglon hefyd i rai cyfranogwyr.

Wrth wneud ymchwil yn ôl y British Ethical Guidelines for Educational Research (2018) (BERA), dylai ymchwilydd gweithredu yn foesebol tuag at unrhyw un sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil, ac mae'n bwysig bod y cyfranogwyr yn cael eu trin efo pharch ac yn deg. Yn ogystal wrth wneud ymchwil mae anhysbysrwydd a chyfrinachedd yn ffactor hanfodol. Mae'n ddisgwyliedig wrth wneud ymchwil bod popeth yn anhysbys ac nad oes unrhyw hawl rhannu gwybodaeth sy'n gallu adnabod y cyfranogwyr er enghraifft gwybodaeth bersonol (BERA, 2018, tud 21). Hefyd ar ddechrau'r ymchwil mae'n ddisgwyliedig i gael caniatâd gwybodus y cyfranogwyr ac wrth gynnal yr ymchwil bydd yr ymchwilydd yn parhau i fod yn sensitif ac yn agored i'r posibilrwydd y gall y cyfranogwyr tynnu eu caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg os maent yn dymuno (BERA, 2018, tud 9). Os mae'r cyfranogwyr o dan 18 mlwydd oed bydd angen caniatâd rhiant neu warchodwr er mwyn iddyn nhw gymryd rhan yn yr ymchwil (BERA, 2018, tud 14&15). Wrth gynnal yr ymchwil bydd moeseg yn hollol bwysig a bydd canllawiau BERA yn cael i gadw trwy gydol yr ymchwil. Cyn cychwyn yr ymchwil roedd ffurflen moeseg (gwelir atodiad 1) a ffurflen caniatâd (gwelir atodiad 2) wedi cael i greu a rhoi i bennaeth yr ysgol i ddarllen ac arwyddo er mwyn cael eu caniatâd gwybodus (BERA, 2018, tud 9).

Canlyniadau a Thrafodaeth

Yn yr adran yma byddaf yn trafod y data rwyf wedi casglu er mwyn ateb y cwestiwn 'Beth yw barn staff a disgyblion blwyddyn 5 am ddefnyddio meini prawf llwyddiant?' a byddaf yn trafod pa mor effeithiol oedd yr offer ymchwil defnyddiais ar gyfer yr ymchwil.

I gychwyn byddaf yn trafod canlyniadau'r holiadur rhoddais i'r disgyblion, Dangosir cwestiwn un o'r holiadur (gwelir atodiad 3, cwestiynau 1-6) bod 50% o'r disgyblion yn gweld bod meini prawf llwyddiant yn bwysig iawn ar 50% arall yn gweld bod meini prawf llwyddiant yn bwysig. Felly mae'r canlyniadau yn dangos bod pob disgybl a barn bositif am

bwysigrwydd meini prawf llwyddiant gan fod neb yn meddwl nad yw meini prawf llwyddiant yn bwysig. Mae'r canlyniadau yma yn atgyfnerthu theori Hattie (dyfynnwyd yn STEM Learning, 2010-2019) bod meini prawf llwyddiant yn bwysig iawn i ddisgyblion.

Dangosir cwestiwn pedwar o'r holiadur (gweler atodiad 3, cwestiynau 1-6) bod 65% o'r disgyblion yn edrych nôl ar y meini prawf llwyddiant pob amser wrth wneud ei gwaith ac mae 35% o'r dosbarth weithiau edrych yn ôl ar y meini prawf llwyddiant wrth wneud ei gwaith. Mae'r canlyniadau o'r cwestiwn yma yn cadarnhaol ac yn dangos bod y disgyblion yn gweld meini prawf llwyddiant o fudd wrth wneud ei gwaith gan ei fod yn edrych yn ôl arni naill ai pob amser neu weithiau. Gan fod y disgyblion yn edrych yn ôl ar y meini prawf llwyddiant mae'n cryfau at beth dywed Shirley Clarke bod 'meini prawf llwyddiant yn crynhoi'r camau neu'r cynhwysion allweddol sydd angen ar y myfyrwyr er mwyn iddyn nhw gyflawni'r bwriad dysgu – y prif beth i'w gwneud, cynnwys neu ganolbwyntio arno' (Northern Ireland Curriculum, 2017, tud 15), gan fod y disgyblion yn edrych ar y meini prawf er mwyn gweld beth sydd angen iddyn nhw wneud ac er mwyn sicrhau ei bod yn gyflawni'r bwriad dysgu.

Dangosir ffigur 1 (gwelir atodiad 4) bod y wers mae disgyblion blwyddyn 5 yn gweld bod defnyddio meini prawf llwyddiant yn fwyaf effeithiol mewn dwy wers sef Cymraeg a Mathemateg gyda chanran cyfartal o 35% yn dweud bod Cymraeg yn fwyaf effeithiol a 35% yn dweud taw Mathemateg yw'r wers lle maent yn ffeindio meini prawf llwyddiant yn fwyaf effeithiol. Dangosir ffigur 2 (gwelir atodiad 5) pan mae'n dod i ddefnyddio meini prawf llwyddiant mae 70% o ddisgyblion blwyddyn 5 yn ffeindio bod defnyddio meini prawf llwyddiant yn lleiaf effeithiol yn y gwersi Ymarfer Corff. Felly yn ôl y canlyniadau, barn disgyblion blwyddyn 5 am effeithiolrwydd ddefnyddio meini prawf llwyddiant yn wersi yw mai'n fwyaf effeithiol yn y gwersi Cymraeg a Mathemateg ac maent yn gweld defnyddio meini prawf llwyddiant yn lleiaf effeithiol yn y gwersi Ymarfer Corff.

Ar ôl cynnal y cyfweiliad efo'r staff rwyf wedi codio'r data yn y trawsgrifiad yn ôl y themâu: manteision, heriau, effeithiolrwydd a pwysigrwydd (gweler atodiad 7). Penderfynais codio'r data er mwyn wneud yn hawdd i werthuso'r data gan fod y trawsgrifiad yn cynnwys llawer o ddata ond ni fydd angen ddefnyddio'r holl beth ac trwy codio mi fydd yn caniatáu i ymchwilyr wneud synnwyr o symiau mawr o ddata a dod i gasgliadau ystyrlon (Quality Gurus Inc, 2023).

Wrth gynnal y cyfweiliad (gwelir atodiad 6 am gwestiynau 1-5 y cyfweiliad), dywed y cyfranogwr bod yna manteision rhannu meini prawf llwyddiant efo'r disgyblion a'i fod yn rhannu meini prawf llwyddiant ym mhob gwers boed ar lafar am bethau fel llawysgrifen a sillafu, neu yn y llyfrau ar ffyrdd tasg a mac sef y ffordd mae'r ysgol yn gwneud meini prawf

llwyddiant ac mae'r tasg a mac wedi gwahaniaethu i lefel y disgybl. Un fantais yn ôl y cyfranogwr yw bod y plant yn gwybod yn syth beth yw'r dasg a bod yna strwythur efo nhw i ddilyn yn ystod y dasg. Hefyd mantais arall yw pan mae'n dod i AagD ar ddiwedd y wers mae'r disgyblion yn gallu edrych nôl ar y diwedd a gweld pa elfennau o'r meini prawf maent wedi cyflawni ac yn gallu edrych nol i weld beth sydd angen iddyn nhw wneud tro nesaf i wella. Mae'r canfyddiadau yma yn cryfhau beth a ddywed Black (2003) bod rhannu meini prawf llwyddiant yn ffurfio'r fframwaith sy'n helpu dysgwyr i benderfynu sut y gallent cyflawni'r gwaith, a'r camau y bu'n rhaid iddyn nhw eu cymryd i wella'r tro nesaf. Dywed y cyfranogwr bod yr her i feini prawf llwyddiant yw plant sydd ddim yn gwrandao ac felly mae'n bwysig sicrhau bod pob plentyn yn gwrandao ar ddechrau'r wers pan mae'r dasg a'r meini prawf yn cael i gyflwyno ac felly mae hefyd angen cadw atgoffa'r disgyblion am y meini prawf. Felly gwelwyd ar y cyfan nid yw'r cyfranogwr yn gweld bod nifer o heriau dim ond rhai all gael i oroesi yn hawdd.

Wrth sôn am feini prawf llwyddiant dywedodd y cyfranogwr bod yn gweld meini prawf llwyddiant yn fwyaf effeithiol ar ddiwedd gwers lle maent yn adlewyrchu ac yn adolygu beth maent wedi gwneud. Hefyd mae'n gweld defnyddio meini prawf llwyddiant yn effeithiol yn ystod y gwersi ymarfer corff lle mae yna ryw fath o ddilyniant ac mae'r plant yn gallu eu defnyddio i hunan asesu neu asesu grŵp gan ddilyn y meini prawf a rhoi dwy seren a dymuniad. Gofynnir cwestiwn tebyg yn yr holiadur (gwelir atodiad 3 cwestiwn 5) am mae'n ddiddorol i weld y canlyniadau lle oedd y disgyblion yn gweld bod defnyddio meini prawf yn llai effeithiol yn y gwersi Ymarfer Corff lle yn y cyfweiliad efo staff y dosbarth maent yn gweld bod meini prawf yn fwyaf effeithiol yn y gwersi Ymarfer Corff.

At ei gilydd mae'r canlyniadau yn dangos bod barn bositif gan ddisgyblion a staff blwyddyn 5 am ddefnyddio meini prawf llwyddiant gan fod ar y cyfan maent yn defnyddio ym mhob gwers ac yn ei weld yn effeithiol. Efo'r ymchwil yma mae defnyddio cyfweiliad a holiadur wedi gweithio yn dda ac wedi bod yn effeithiol ond roedd rhai cyfyngiadau efo'r ymchwil. Y prif gyfyngiad oedd efo'r cyfweiliad gan mai dim ond un aelod o'r staff cafodd i gyfweld ac felly does dim modd gwneud cymhariaeth efo canlyniadau i weld os oedd gan staff eraill barn wahanol. Hefyd er oedd yr holiadur yn effeithiol os byddaf yn gwneud ymchwil eto byddaf yn cynnwys cwestiynau agored er mwyn casglu sylwadau efo fwy o eglurhad er mwyn cael fwy am farn y disgyblion yn hytrach na dim ond atebion caeedig.

Casgliad

Bwriad yr ymchwil oedd i ddarganfod beth oedd barn staff a disgyblion blwyddyn 5 am ddefnyddio meini prawf llwyddiant. Cyn dechrau'r ymchwil rhagdybiais bydd rhan fwyaf o'r disgyblion a staff a barn gadarnhaol am ddefnyddio meini prawf llwyddiant a mi fydd yn fwy effeithiol yn rhai gwersi na gwersi eraill.

Y prif casgliad rwyf wedi gwneud yw bod a manteision a heriau i ddefnyddio meini prawf llwyddiant ond ar ôl ar y cyfan darganfyddaf bod gan disgyblion a staff blwyddyn 5 barn cadarnhaol am ddefnyddio meini prawf llwyddiant ac mae'n rhywbeth sydd yn cael i ddefnyddio ym mhob wers boed ar lafar neu yn ysgrifenedig. Nodir un or prif manteision rhannu meini prawf llwyddiant yw bod y disgyblion yn gwybod yn syth beth yw'r dasg a beth yw'r dasg am mae ganddyn nhw y strwythur i ddilyn ac yn gwybod yn union beth i gynnwys ac sut i wella. Mae'n union fel a dywed Shirley Clarke bod meini prawf llwyddiant yn crynhoi'r camau neu'r cynhwysion allweddol sydd angen ar y myfyrwyr er mwyn iddyn nhw gyflawni'r bwriad dysgu' (Northern Ireland Curriculum, 2017, tud 15). Felly wrth rhannu meini prawf efo'r disgyblion maent helpu'r disgyblion gwybod yn union beth i wneud sydd yn fantais enfawr sydd yn dangos bod barn Pollard (2014) am rhybuddio yn erbyn ddefnyddio rhannu meini prawf llwyddiant sef 'cael yn y gwaith o ysgrifennu mecanistaidd o meini prawf llwyddiant' dim o hyd yn y peth ac mae meini prawf llwyddiant o fudd wrth wneud gwaith..

Trwy gydol y prosiect ymchwil yma mae'r prosiect yma wedi helpu gwella fy dysgu proffesiynol gan fy mod nawr yn deall yn well sut i ddefnyddio meini prawf llwyddiant yn effeithiol yn y dosbarth ac yn gwybod lle mae ddefnyddio meini prawf llwyddiant yn fwyaf effeithiol. Noda'r safonau proffesiynol bod 'gwybod sut i ddefnyddio tystiolaeth ac ymchwil i wella fy arferion' (Llywodraeth Cymru, 2017, tud 10) felly wrth defnyddio'r tystiolaeth ac ymchwil gallaf gwella fy arferion o ddefnyddio meini prawf llwyddiant ar PAP 3 blwyddyn nesaf.

Rhestr Cyfeirnod

Assessment Reform Group (2002), *Research-based principles to guide classroom practice*, Ar gael:

www.hkeaa.edu.hk/DocLibrary/SBA/HKDSE/Eng_DVD/doc/Afl_principles.pdf

Black, P., & William, D. (1998). Assessment and classroom learning. Assessment in Education, tud 7-74. [A Summary of Evidence Based Formative Assessment Strategies - Evidence Based Education](#)

Black, P., (2003), *Assessment for Learning: Putting it into practice*, Maidenhead. Open University Press.

Cambridge Assessment International Education, (2019), *Assessment for Learning*, Ar gael : <https://www.cambridgeinternational.org/Images/271179-assessment-for-learning.pdf> (Cyrchwyd: 01.05.2023)

Clark, A. (2005) 'Ways of seeing: using the Mosaic approach to listen to young children's perspectives', in Clark, A., Kj rholt and Moss, P. (eds.) *Beyond Listening. Children's perspectives on early childhood services*. Bristol: Policy Press, pp. 29–49.

Cleave, P., 2023, *Advantages Of Questionnaires In Online Research*, Ar gael: <https://www.smartsurvey.co.uk/blog/advantages-of-questionnaires-in-online-research#:~:text=Compared%20to%20other%20research%20methods,trying%20to%20investigate%20and%20answer.> (Cyrchwyd 02.05.23)

Cohen, L., Manion, L. and Morrison, K. (2000) *Research Methods in Education*. 5th Edition, Routledge Falmer, London.

Creswell, J. W. (2012). *Qualitative inquiry & research design: Choosing among five approaches* (4th ed.). Thousand Oaks, CA: Sage.

Denscombe, M., (2014), *The Good Research Guide For small-scale social research projects* [The Good Research Guide-Denscombe \(2014\) \(1\).pdf](#) (Cyrchwyd 04.04.23)

Estyn, (2022), *Effective approaches to assessment that improve teaching and learning*, Ar gael: <https://www.estyn.gov.wales/system/files/2022-10/Effective%20approaches%20to%20assessment%20that%20improve%20teaching%20and%20learning.pdf> (Cyrchwyd 02.05.23)

Frey, N., Hattie, J. & Fisher, D., (2018), *Developing assessment-capable visible learners: Grades K-12*, Thousand Oaks, CA: Corwin, a Sage Co.

Harrison, C., (2013), *Assessment for learning: are you using it effectively in your classroom?*, The Guardian Professional [Online]. Ar gael: <https://www.theguardian.com/teacher-network/teacher-blog/2013/aug/29/assessment-for-learning-effective-classroom> (Cyrchwyd: 01.05.23)

Jones, C., (2005), *Assessment for Learning*, Learning and Skills Development Agency, [Online] Ar gael: <http://dera.ioe.ac.uk/7800/1/AssessmentforLearning.pdf> (Cyrchwyd 02.05.23)

King, N., & Horrocks C. (2010). Interviews in qualitative research. Thousand Oaks, CA: SAGE.

Llywodraeth Cymru, (2013), *Asesu ar gyfer dysgu a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol*, Ar gael: <https://hwb.gov.wales/storage/199a18b5-672f-449b-ab04-dc0a1f58793c/asesu-ar-gyfer-dysgu-ar-fframwaith-llythrennedd-a-rhifedd-cenedlaethol.pdf>, (Cyrchwyd 11.04.23)

Llywodraeth Cymru, (2017), *Safonau proffesiynol ar gyfer athrawon addysg bellach ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru*, Ar gael: <https://hwb.gov.wales/api/storage/04ac1db8-f5e0-4797-a806-89e9039b48eb/safonau-proffesiynol-athrawon-addysg-bethach-ymarferwyr-dysgu-seliedig-ar-waith-nghymru.pdf> (Cyrchwyd 12.05.23)

Northern Ireland Curriculum, (2007), *Assesment for learning for Key Stage 3*, Ar gael: <https://ccea.org.uk/downloads/docs/ccea-asset/Assessment/Assessment%20for%20Learning%20for%20Key%20Stage%203.pdf#:~:text=In%20AfL%2C%20success%20criteria%3A%20are,and%20peer%20and%20self%2Dasessment> (Cyrchwyd 23.12.2022)

Pollard, A., (2014) *Reflective teaching in schools*. London. Bloomsbury.

Punch.K,2013 Introduction to Social Research.,

Quality Gurus Inc,2023, *Data Coding*, Ar gael: <https://www.qualitygurus.com/data-coding/#:~:text=Data%20coding%20is%20an%20important,otherwise%20be%20difficult%20to%20detect>. (Cyrchwyd 10.05.23)

Robson, C. (1993) *Real World Research. A Resource for Social Scientists and Practitioner Researchers*. Blackwell Publishers Inc., Oxford.

STEM Learning, (2010-2019), *John Hattie: Learning intentions and success criteria*, Ar gael: <https://www.stem.org.uk/resources/elibrary/resource/273227/john-hattie-learning-intentions-and-success-criteria> (Cyrchwyd 25.04.23)

William, D. (2018). *Embedded formative assessment (2nd Edn)*. Bloomington, IN: Solution Tree Press.

William, D., (2011), Embedded Formative Assessment, Bloomington: Solution Tree Press, c2011

